Dysgu yn y gwaith

Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo darparwyr dysgu yn y gwaith i wella gweithio mewn partneriaeth

- A yw eich trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer rolau contractau prentisiaeth yn drylwyr?
- A yw eich arferion hunanwerthuso a gwella ansawdd yn cynnwys yr holl isgontractwyr?
- A ydych yn ymgysylltu ag isgontractwyr fel partneriaid ac yn defnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn effeithiol?
- Sut ydych chi'n cynllunio ac yn contractio isgontractwyr yn strategol i gyflwyno rhaglenni ledled Cymru?
- Sut ydych chi'n osgoi dyblygu darpariaeth mewn rhanbarthau daearyddol?
- A ydych yn gwneud y defnydd gorau o isgontractwyr i ddefnyddio eu harbenigedd i arwain datblygiadau allweddol, fel perfformiad meysydd dysgu, llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a'r Gymraeg?
- Sut ydych chi'n barnu perfformiad ym mhob maes dysgu ar draws eich partneriaid, heblaw am ddefnyddio data perfformiad dysgwyr?
- Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio i gynnwys cyflogwyr newydd mewn prentisiaethau a bodloni eu hanghenion hyfforddiant, er enghraifft mewn technolegau newydd a thechnolegau gwyrdd?
- Pa strategaethau ydych chi'n eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd addysgu, hyfforddi ac asesu, yn enwedig dysgu ac asesu o bell? Sut mae'ch partneriaid yn cyfrannu at y monitro hwn?